

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol – Lle Rhoddwyd Rhybudd

Parkway Clinic, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mawrth
2022

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mehefin
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	12
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Parkway Clinic ar 10 Mawrth 2022. Roedd ffocws yr arolygiad hwn ar y gwasanaethau llawdriniaeth ar y geg ac offthalmoleg a ddarperir ar lawr daear yr adeilad.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau arolygydd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd Parkway Clinic yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd a oedd yn groesawgar ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Mynegodd y cleifion lefelau uchel o foddhad â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd, a gwelsom rhyngweithiadau parchus rhwng y staff a'r cleifion bob amser.

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn gyffredinol yn yr ysbyty, a oedd yn seiliedig ar amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwnaethom nodi nifer fach o welliannau fel y nodir isod.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mynegodd y cleifion lefelau uchel o foddhad â'u profiad
- Gwelwyd rhyngweithiadau parchus rhwng y staff a'r cleifion
- Llwybrau triniaeth clir a chydlynol
- Arferion a gwybodaeth dda am ddihalogi

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar ddiogelwch tân
- Agweddau ar wella ansawdd

Gwnaethom nodi achos o dorri'r rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Derbyniodd AGIC sicrwydd amserol a digonol bod camau priodol wedi'u cymryd yn syth ar ôl yr arolygiad.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Parkway Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn Lamberts Road, SA1 Glannau Abertawe, SA1 8EL.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol, a gwasanaethau a arweinir gan feddygon ymgynghorol, gan gynnwys llawdriniaeth ar y geg, offthalmoleg, a thriniaethau llawdriniaeth gosmetig. Mae triniaethau o dan anesthesia neu gyffuriau tawelu ar gael.

Mae tîm y staff yn cynnwys llawfeddygon deintyddol, llawfeddygon y geg, anesthetyddion, staff nyrsio a theatr, a staff rheoli a gweinyddol.

Mae'r meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflogi fel ymarferwyr meddygol annibynnol ar sail sesiynol o dan drefniadau braint ymarfer.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion lefelau uchel o foddhad â'u profiad yn Parkway Clinic a gwelsom ryngweithiadau proffesiynol a pharchus rhwng y staff a'r cleifion bob amser.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn fodern ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, gan roi profiad croesawgar cyffredinol i'r cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 30 holiadur. Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd pob un o'r 30 o'r farn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Yng ngeiriau'r cleifion:

“Roedd y gwasanaeth yn anhygoel, dwi ddim yn credu bod angen i unrhyw beth newid. Roedd popeth yn berffaith.”

“Ar y cyfan, rydyn ni'n hapus iawn gyda'n hymweliad heddiw.”

“O'r amser y gwnaethom gerdded drwy'r drysau, i'r amser y gwnaethom adael, mae'r gwasanaeth a gawsom wedi bod yn fendigedig. Diolch.”

Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod deunydd darllen a gwybodaeth i'r cleifion fynd â nhw gartref wedi cael eu tynnu dros dro oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, darparwyd taflenni sy'n benodol i driniaeth i'r cleifion fel rhan o'u hasesiad ac roedd taflenni canllaw i gleifion ar gael i roi trosolwg cyffredinol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr ysbyty.

Roedd nifer o bosteri a nodiadau atgoffa a oedd yn ymwneud â diogelwch COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys nodiadau atgoffa i wisgo masgiau a chynnal hylendid dwylo da.

Urddas a pharch

Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd parchus a phroffesiynol bob amser. Dywedodd pob un o'r 30 o bobl a ymatebodd i'r holiadur wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff yr ysbyty.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn fodern ac i'w weld yn lân ym mhob man. Roedd yr ystafelloedd aros yn eang ac roedd y mannau triniaeth yn hygyrch i'r staff yn unig.

Dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas eu hunain yn ystod eu hapwyntiadau a'u bod yn gallu siarad â'r staff am eu gweithdrefn neu eu triniaeth heb gael eu clywed gan bobl eraill.

Roedd y man adfer o faint priodol ar gyfer nifer y gwelyau ac roedd yn darparu lefel addas o breifatrwydd. Ar gyfer unrhyw blant sy'n cael triniaeth, dywedwyd wrthym fod rhieni yn gallu aros gyda nhw yn y man adfer ar ôl eu triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn amlinellu sut mae'r ysbyty'n gweithredu, y broses atgyfeirio, a'r weithdrefn gwyno. Roedd taflen gyngor ar wahân ar gael a oedd yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i'r cleifion ei wneud cyn, yn ystod ac ar ôl eu hapwyntiad i sicrhau eu diogelwch. Roedd detholiad bach o daflenni unigol sy'n benodol i driniaeth i helpu i roi gwybodaeth i'r cleifion am eu triniaeth.

Defnyddiwyd ffurflenni cydsynio sy'n benodol i driniaeth ac roedd y rhain yn cynnwys unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth ac roeddent wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu canllawiau COVID-19. Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a chanfod y cafwyd cydsyniad ym mhob achos.

Dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu triniaeth, i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a gwnaethant ddweud eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Ar gyfer y cleifion sy'n talu ffi, dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym fod cost y driniaeth wedi'i hegluro cyn iddynt gael triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn tŷn barchus a phroffesiynol bob amser yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn yn ymestyn i'r staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Dywedodd tri chlaf wrthym nad oeddent yn gallu cyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith, sef Cymraeg. Dywedodd pedwar claf wrthym nad oedd gwybodaeth sy'n ymwneud â gofal iechyd ar gael yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, dywedodd y gwasanaeth wrthym fod llinell iaith a nifer fach o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Cynghorir y gwasanaeth i ystyried ymhellach sut y gall yr ysbyty fynd ati'n rhagweithiol i nodi a diwallu anghenion iaith pob claf.

Cynllunio a darparu gofal

Mae'r ysbyty yn darparu triniaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat. Mae cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i'r ysbyty o'r GIG yn cael gwybodaeth berthnasol i'w helpu i ddeall y gofal a thriniaeth arfaethedig. Mae'r ymarferydd meddygol sy'n atgyfeirio yn gyfrifol am asesiad cychwynnol y claf i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer triniaeth. Mae cleifion preifat yn cael eu hasesu'n uniongyrchol gan yr ysbyty.

Roedd cynlluniau gofal sy'n benodol i driniaeth ar gyfer oedolion a phlant yn cael eu defnyddio. Roedd y rhain yn cofnodi ehangder o fanylion am y cleifion, gan gynnwys hanes meddygol. Ar gyfer plant, cofnodwyd manylion penodol yn ymwneud â dealltwriaeth y plentyn o'r weithdrefn a sut yr oedd unrhyw bryderon a oedd yn gysylltiedig â chael triniaeth wedi'u lleddfu.

Roedd gwybodaeth berthnasol am ryddhau cleifion a gofal ar ôl llawdriniaeth yn cael ei darparu i'r cleifion. Gwelsom enghreifftiau o lythyrau rhyddhau, a gwnaethom gadarnhau eu bod yn cael eu dychwelyd at yr ymarferydd atgyfeirio mewn modd amserol.

Dywedodd pob un o'r 30 o ymatebwyr wrthym eu bod wedi cwblhau ffurflen hanes meddygol neu fod eu hanes meddygol wedi'i wirio cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth a'u bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y cleifion yn gallu mynd i'r ysbyty gyda hebryngwr os oedd angen cymorth ychwanegol arnynt i gael mynediad at y gwasanaeth. Roedd polisi clir ar waith bod yn rhaid i'r cleifion fod yng nghwmni rhywun yn dilyn gweithdrefnau penodol, megis anesthetig cyffredinol, er mwyn sicrhau eu diogelwch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol yn gyffredinol o'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a sut i ddarparu gofal i'r rhai a allai fod â diffyg galluedd meddyliol. Gwnaethom gadarnhau hefyd fod hyfforddiant trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi'i ddarparu i'r staff.

Gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i roi ystyriaeth bellach i'r arwyddion yn yr amgylchedd cyffredinol, yn enwedig ar gyfer rhai grwpiau cleifion a'r rhai sy'n derbyn triniaethau offthalmig, a phrynu dolen glyw i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gwbl hygyrch i bawb.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth hynod gadarnhaol yn ymwneud â'u profiad yn y gwasanaeth.

Gwelsom fod systemau priodol ar waith i gael, adolygu ac ymateb i adborth a chwynion y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys arolygon boddhad cleifion a ddarparwyd i'r cleifion yn dilyn eu triniaeth. Roedd canlyniadau'r arolygon hyn yn cael eu harddangos fel y gallai'r cyhoedd eu gweld.

Roedd posteri a thafleini adborth hefyd ar gael ar draws yr ysbyty ac roedd hyn yn cynnwys manylion am y broses gwyno ffurfiol os oedd ei hangen. Rhestrwyd manylion sefydliadau allanol, gan gynnwys AGIC, yn y llenyddiaeth hon er mwyn rhoi ffynhonnell ychwanegol o gymorth.

Gwelsom y bu nifer isel o gwynion. Gwnaethom adolygu sampl o'r rhain a chanfod eu bod wedi'u cydnabod ac wedi cael ymateb o fewn amserlen briodol.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Ategwyd hyn gan ystod o brosesau a gweithdrefnau addas i sicrhau bod lefel dda o ofal yn cael ei chynnal.

Roedd prosesau dihalogi da ar waith ac roedd gan y staff wybodaeth dechnegol gadarn.

Nodwyd nifer fach o welliannau er mwyn cryfhau arferion presennol y gwasanaeth.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis. Roedd gan yr ysbyty amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau lleol ar waith i sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas i'r diben.

O ganlyniad i newidiadau oherwydd y pandemig, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19 cyn eu hapwyntiad. Roedd angen hunanyngysu ar gyfer rhai triniaethau a gwnaethom gadarnhau bod y staff yn gwirio y glynir at hyn cyn darparu triniaeth. Gwnaethom gadarnhau bod newidiadau aer sy'n ymwneud â gweithdrefnau cynhyrchu aerosol wedi'u hadolygu yn unol â chanllawiau iechyd cyhoeddus y DU.

Roedd yr adeilad yn adeilad modern ac roedd yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Roedd mannau clinigol a mannau cyhoeddus yr ysbyty yn eang ac yn darparu mynediad ar y llawr daear i'r cleifion ac yn achos argyfwng meddygol.

Roedd asesiad risgiau tân diweddar wedi'i gwblhau a dywedwyd wrthym ar lafar pa gamau a gymerwyd, ond gwelsom nad oedd y rhain wedi'u dogfennu yng nghynllun gweithredu'r asesiad risg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth gofnodi'r camau a gymerwyd a phryd, yn unol â lefel y risg a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r asesiad risgiau tân.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob rhan o'r ysbyty i'w gweld yn lân ac mewn cyflwr da. Cwblhawyd y gwaith glanhau gan contractiwr allanol a chwblhawyd amserlenni glanhau. Roedd yr holl ddeunyddiau glanhau wedi'u cadw'n ddiogel.

Roedd y rolau dihalogi arweiniol yn cael eu llenwi ar y cyd gan ddau aelod o'r staff nyrsio. Roeddent yn dangos gwybodaeth gadarn am eu rolau, eu cyfrifoldebau, a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn.

Roedd y cyfleusterau hylendid dwylo'n ddigonol a gwelwyd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol. Rhoddwyd mesurau priodol ar waith mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys profion ffitio'r wyneb¹ i'r staff.

Roedd protocol priodol ar gyfer ymdrin ag anafiadau gan offer miniog. Gwelsom fod dyfais ail-orchuddio yn cael ei defnyddio a bod cofnodion brechu yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod offer y gellir eu haildefnyddio yn cael eu dihalogi. Roedd hyn yn cynnwys diheintio yn yr ysbyty gan ddefnyddio offer a brofwyd yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.² Defnyddiwyd contractwyr allanol i gasglu a dychwelyd offer a ddefnyddiwyd mewn gweithdrefnau llawfeddygol eraill.

¹ Prawf sy'n gwirio p'un a yw masg cyfarpar diogelu personol unigolyn yn ffitio siâp a maint ei wyneb.

² Bwriad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw codi ansawdd gwaith dihalogi mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol drwy ymdrin â dihalogi offer y gellir eu haildefnyddio.

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau'r staff a chanfod bod hyfforddiant rheoli heintiau wedi'i gwblhau a bod y staff yn gweithio tuag at y nifer gofynnol o oriau yn unol â gofynion eu corff proffesiynol.

Yn ddiethriad, nododd y cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth yn 'lân iawn' a gwnaeth pob un ond un nodi bod gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn 'amlyg iawn' yn ystod eu hamser yn y gwasanaeth.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi a gweithdrefn rheoli meddyginiaeth ar waith a gwelsom fod y dull o storio meddyginiaeth yn dda ar y cyfan ym mhob ardal.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi problem sy'n ymwneud â storio meddyginiaeth sy'n sensitif i dymheredd. Roedd hyn oherwydd bod oergell ddomestig yn cael ei defnyddio i storio rhywfaint o feddyginiaeth ac ni allem fod yn sicr o'i haddasrwydd i storio cynhyrchion meddyginiaethol. Gwelsom fod meddyginiaeth fel arall yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel mewn rhannau eraill o'r ysbyty.

Gwelsom fod gwiriadau tymheredd dyddiol o'r oergelloedd yn cael eu dogfennu'n gyson ar y cyfan, ond gwelsom fod bylchau yng nghofnod oergell y theatr lle nad oedd gwiriadau wedi'u cwblhau a'u dogfennu.

Oherwydd natur amserol y pryder hwn, aethom i'r afael â'r mater hwn drwy broses diffyg cydymffurfio AGIC. Cawsom ddigon o sicrwydd gan y gwasanaeth bod hwn wedi'i gywiro erbyn adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Gellir gweld manylion y camau a gymerwyd yn Atodiad B.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn briodol ar waith i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu yn ymwneud ag oedolion neu blant a allai fod yn agored i niwed.

Roedd arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer yr ysbyty a gwnaethom gadarnhau bod hyfforddiant wedi'i gwblhau i lefel briodol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y gwasanaeth ystod o ddyfeisiau, offer a systemau meddygol a oedd yn ymddangos i ddiwallu anghenion gofal a thriniaeth y cleifion.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac ar gyfer adrodd am unrhyw faterion. Roedd hyn yn cynnwys cytundebau cynnal a chadw'r gwasanaeth a phenodi cynghorydd amddiffyn rhag laserau.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod llwybrau triniaeth a gofal cydlynol yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth, a oedd yn galluogi cleifion i gael triniaeth mewn modd amserol. Roedd gweithdrefnau addas cyn llawdriniaeth ac ar ôl llawdriniaeth ar waith ar gyfer y triniaethau a ddarperid.

Gwnaethom ystyried sut roedd triniaethau dan dawelydd ymwybodol ac anesthetig cyffredinol yn cael eu cynnal mewn modd diogel ac effeithiol. Canfuom y canlynol:

- Roedd maint y manau llawdriniaeth a'r manau adfer yn ddigonol i ddarparu triniaeth ac ar gyfer y gwaith o reoli argyfyngau
- Roedd staff clinigol â chymwysterau addas yn cael eu cyflogi ac roedd y staff wedi'u hyfforddi i lefel cynnal bywyd canolraddol o leiaf
- Roedd cyffuriau ac offer brys perthnasol ar gael yn rhwydd ac roeddent o fewn eu dyddiad
- Roedd gan offer, gan gynnwys y peiriant anesthesia cyffredinol, a nwyon meddygol gontractau cynnal a chadw gwasanaeth priodol

Gwelsom nad oedd tawelyddion ymwybodol yn cael eu rhoi fel mater o drefn ar adeg yr arolygiad.

Gwnaethom ystyried sut roedd yr offer laser offthalmolig a'r dogfennau cysylltiedig wedi'u cynnal trwy gydol y pandemig i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Canfuom y canlynol:

- Roedd protocolau triniaeth a rheolau lleol a adolygwyd yn ddiweddar ar waith ac roedd gan y staff gymwysterau addas i gyflawni'r triniaethau dynodedig
- Roedd offer laser o dan gontract cynnal a chadw gwasanaeth
- Penodwyd cynghorydd amddiffyn rhag laserau ac roedd archwiliad cadarn diweddar wedi'i gwblhau heb unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol

- Roedd hyfforddiant Craidd Gwybodaeth³ wedi'i gwblhau yn y sampl o ffeiliau gweithredwyr laserau a adolygwyd gennym

Gwnaethom gadarnhau bod cyffuriau brys ac offer dadebru mewn argyfwng ar gael a'u bod yn bodloni safonau'r Cyngor Dadebru (DU) ar gyfer trin oedolion a phlant. Roedd gwiriadau rheolaidd o'r pecyn hwn wedi'u cwblhau a'u cofnodi'n briodol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan yr ysbyty fecanweithiau ar waith i gael adborth gan y cleifion ac roedd tystiolaeth bod adborth yn cael ei adolygu ac y gweithredir arno lle y bo'n briodol.

Gwelsom fod rhai gweithgareddau archwilio yn cael eu cynnal, gan gynnwys archwiliadau rheoli heintiau ac archwiliadau ansawdd radiograffeg. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod yr ysbyty'n ystyried ehangu ei raglen gwella ansawdd wrth i'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae'n eu darparu ddatblygu a chynyddu. Dylid rhoi pwyslais arbennig ar ganlyniadau clinigol, e.e. Archwiliad Cataract Cenedlaethol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth archwilio sut y gall ehangu ei weithgareddau gwella ansawdd.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn ymwneud â gweithdrefnau llawdriniaeth ar y geg yn cael eu storio ar system electronig, a oedd yn ymddangos yn ddiogel gyda mynediad cyfyngedig. Roedd cofnodion cleifion offthalmig ar bapur ac yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo.

Ar y cyfan, gwelsom safon dda iawn o gadw cofnodion. Roedd nodiadau cleifion yn gyfoes ac roedd rhestrau gwirio diogelwch llawfeddygol yn cael eu defnyddio.

³ Ardystiad Craidd Gwybodaeth sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Meddygol a Gofal Iechyd

Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg llofnodion neu gydlofnodion gan y meddyg ymgynghorol perthnasol mewn rhai cofnodion offthalmoleg lle roedd eu hangen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod holl ddogfennau'r cleifion yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi yn ôl yr angen.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Ar y cyfan, gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda gan dîm sefydledig yn yr ysbyty ac roedd yn ymddangos bod timau staff yn cydweithio'n dda.

Roedd anghenion hyfforddi'r staff wedi parhau i gael eu diwallu drwy gydol y pandemig ac roedd arfarniadau wedi'u cwblhau i sicrhau bod perfformiad staff ac anghenion dysgu a datblygu'n cael eu hadolygu'n barhaus.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom dîm rheoli sefydledig a oedd yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu profiad cadarnhaol a gofal diogel i'r cleifion. Roedd y rheolwyr yn canmol eu timau staff, gan gynnwys y ffordd yr oedd yr holl staff wedi ymateb i'r pandemig.

Roedd llinellau rheoli ac atebolrwydd clir trwy dimau rheoli a thimau staff. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch sut yr oeddent yn cyflawni eu rolau ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at y cleifion a'u cydweithwyr eraill.

Roedd llif priodol o wybodaeth rhwng cyfarfod wythnosol yr uwch-dîm, y cyfarfod staff misol a sgrym ddyddiol y tîm.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth nifer isel o gwynion ac un digwyddiad wedi'u cofnodi. Gwnaethom adolygu'r digwyddiad a chanfod bod pob cam wedi'i gymryd i ymateb yn briodol i'r digwyddiad, ymchwilio iddo, ac adrodd arno i AGIC. Nid oedd angen unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r digwyddiad hwn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau staff a chanfod cofnodion hyfforddiant cynhwysfawr. Fodd bynnag, cynghorir y gwasanaeth i ystyried defnyddio matrices hyfforddi i gofnodi a nodi unrhyw anghenion hyfforddi sydd heb gael sylw yn hawdd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod anghenion hyfforddi ychwanegol yn cael eu hystyried fesul achos a bod y staff yn gallu trafod eu hanghenion datblygu drwy broses arfarnu flynyddol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf.

Gwelsom fod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau bod y staff yn gallu cwblhau hyfforddiant ar-lein yn ystod y pandemig ac y byddai hyfforddiant wyneb yn wyneb yn aildechrau cyn gynted â phosibl.

Gwelsom fod nifer isel o swyddi gwag ar adeg yr arolygiad, ond dywedwyd wrthym fod ymdrechion gweithredol ar y gweill i recriwtio i'r swyddi hyn.

Gwnaethom adolygu sampl o rotâu staff a chanfod bod digon o staff i ddiwallu anghenion y cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod rhestrau theatr ac apwyntiadau yn cael eu trefnu ymlaen llaw, sy'n helpu i gynllunio trefniadau staffio priodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau staff a chanfod bod yr holl staff wedi cael gwiriadau priodol cyn cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweiliadau, cael geirdaon, a chwblhau gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i helpu i sicrhau addasrwydd y staff. Gwnaethom gadarnhau bod y staff clinigol wedi'u cofrestru â'u corff proffesiynol perthnasol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n briodol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
-	-	-	-

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Parkway Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mawrth 2022

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Y camau sydd i'w cymryd	Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r lleoliad sicrhau'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Bod meddyginiaeth yn cael ei storio mewn oergell briodol2. Bod gwiriadau tymheredd dyddiol o oergelloedd yn cael eu cwblhau bob amser	Rheoliad 15(5)(a)	<p>Archebwyd oergell feddygol newydd, Coolmed CMS300, gyda graddnodi, clo cyfuniad di-allwedd a chofnodwr data, yr un diwrnod â'r arolygiad.</p> <p>I fod i gyrraedd yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf.</p> <p>Yn y cyfamser, mae'r oergell yn y fan a'r lle yn cael ei gwirio a'i chofnodi bob dydd.</p> <p>Dim ond pum diwrnod oedd heb eu cofnodi o fewn y 18 mis diwethaf.</p>	P ac S Majoe	<p>Ar unwaith ar y ddwy ran</p> <p>Ar unwaith</p>

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Parkway Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r gwasanaeth gofnodi'r camau a gymerwyd a phryd, yn unol â lefel y risg yng nghynllun gweithredu'r asesiad risgiau tân.	Rheoliad 26(4)	Mae gwaith papur yr asesiad risgiau tân bellach wedi'i gwblhau.	S Majoe	Ar unwaith
Dylai'r gwasanaeth archwilio sut y gall ehangu ei weithgareddau gwella ansawdd.	Rheoliad 19	Mae'r llawfeddygon llygaid yn ymchwilio i feysydd newydd o wella ansawdd ar hyn o bryd.	L Anderson	Yn barhaus
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod holl ddogfennau'r cleifion yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi yn ôl yr angen.	Rheoliad 23	Mae neges e-bost wedi'i hanfon at bob llawfeddyg yn eu hatgoffa o bwysigrwydd llofnodion ar yr holl waith papur priodol.	S Majoe	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):S Majoe

Swydd: Rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 26/4/2022